**Sioned Williams**
Aelod Plaid Cymru o'r Senedd dros
Orllewin De Cymru
—
Plaid Cymru Member of the Senedd for
South West Wales

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
sioned.williams@senedd.cymru
senedd.cymru/sionedwilliams
www.sionedwilliams.cymru
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
sioned.williams@senedd.wales
senedd.wales/sionedwilliams
www.sionedwilliams.wales

01639 203204
@SionedPlaid
@Sioned_W
/SionedWilliamsPlaidCymru

Dyddiad | Date: 06.10.2025

Pwnc | Subject: Cywiro cofnod y Cyfarfod Llawn 20.09.25

Annwyl Lywydd,

Hoffwn esbonio pam rydw i wedi cywiro cofnod y Cyfarfod Llawn yn sgil f'ymateb i'r Prif Weinidog yn ystod sesiwn gwestiynau ddydd Mawrth Medi 20 2025.

Rydw i wedi bod yn ymgyrchu ar ddau fater sy'n gysylltiedig gydag effaith tipiau a gwastraff diwydiannol ar gymunedau yn fy rhanbarth, sef dymchwel adeilad Ysgol Godre'r Graig yn sgil pryderon am ddiogelwch hen domen cwâr uwchben y gymuned, ac hefyd pryderon am ddiogelwch cyn waith glo brig East Pit - math o wastraff rwyf wedi bod yn dadlau ddylai fod yn rhan o Fil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) Llywodraeth Cymru. Roedd fy nghwestiwn atodol i'r Prif Weindog yn holi am gefnogaeth y Llywodraeth ar gyfer cais i godi adeilad newydd ar gyfer Ysgol Godre'r Graig ond wrth ymateb i ateb cychwynnol y Prif Weinidog am y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir, fe gymysgais y ddau fater a datgan, yn anghywir, nad oedd tomenni cwâr yn dod o dan y ddeddfwriaeth newydd.

Rwy' eisoes wedi cywiro'r cofnod, ond roeddwn am wneud yn glir drwy'r llythyr yma mai camgymeriad llwyr oedd hyn yn dilyn o'r hyn rwy'n amlinellu uchod, nid ymgais i gamarwain, a hefyd bwysleisio bod y pwyntiau ehangach a wnaed yn fy nghwestiwn atodol am sefyllfa Ysgol Godre'r Graig yn para'n gwbl ddilys er gwaetha'r camgymeriad hwn.

Yn gywir

Sioned Williams

S.A. Williams

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Plaid Cymru
Party of Wales